**Mark Drakeford AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid**
**Cabinet Secretary for Finance**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

25 Hydref 2018

Annwyl Llyr,

Yn gynharach y mis hwn, ysgrifennais at Aelodau'r Cynulliad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am waith CThEM a Llywodraeth Cymru i baratoi ar gyfer gweithredu cyfraddau treth incwm Cymru ym mis Ebrill 2019. Wrth osod Cyllideb ddrafft amlinellol 2019-20 ar 2 Hydref, cefais gyfle i gadarnhau na fydd Llywodraeth Cymru yn amrywio'r cyfraddau treth incwm yn 2019-20, er mwyn sicrhau ein bod yn symud yn drefnus ac yn llyfn i'r trefniadau newydd.

Mae'r broses o weithredu cyfraddau treth incwm Cymru yn parhau i fynd rhagddi yn dda - daeth adolygiad sicrwydd annibynnol diweddar i'r casgliad bod y prosiect ar y trywydd cywir ac mae archwiliadau o baratoadau CThEM a Llywodraeth Cymru yn cael eu cynnal gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Swyddfa Archwilio Cymru yn eu tro. Cafwyd ymateb cadarnhaol hefyd i gam cyntaf ymgyrch Llywodraeth Cymru ar y cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth.

Y mis nesaf, bydd pob un sy'n talu treth incwm ac yn gwsmer CThEM sy'n byw yng Nghymru - dros ddwy filiwn o bobl - yn cael llythyr gan CThEM am gyfraddau treth incwm Cymru, a fydd yn cynnwys taflen gan Lywodraeth Cymru yn egluro'r newidiadau.

Yn gynharach yr wythnos hon, cefais yr wybodaeth ddiweddaraf am gostau gweithredu cyfraddau treth incwm Cymru gan Jim Harra, dirprwy brif weithredwr ac ail Ysgrifennydd Parhaol CThEM. Mae CThEM wedi mireinio'i amcangyfrif cychwynnol o gyfanswm y costau gweithredu, o £5m i £10m i £7.5m i £9.5m. Mae'r amcangyfrif hwn yn cynnwys yr holl gostau cysylltiedig â gweithredu cyfraddau treth incwm Cymru - costau TG, costau busnes a chostau staff. Nid yw'n cynnwys costau rhedeg blynyddol ar gyfer gweinyddu cyfraddau treth incwm Cymru tu hwnt i fis Ebrill 2019, yr amcangyfrifir ar hyn o bryd y bydd yn £319k y flwyddyn, ac nid yw chwaith yn cynnwys y costau a ysgwyddwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi cadarnhau na fydd y costau hynny'n fwy na £200k.

Mae CThEM wedi fy sicrhau bod yr holl amcangyfrifon a chostau yn destun craffu a herio gan dîm y prosiect a'r bwrdd prosiect misol lle mae fy swyddogion yn cymryd rhan weithgar.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn eich helpu wrth graffu ar y paratoadau ar gyfer cyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid
Cabinet Secretary for Finance